PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Protocol Ymwelwyr Proffil Uchel (Dros Dro)

| Dyddiad | Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid | Cwblhawyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb |
|---|---|---|
| Mai 2024 | Cyhoeddiad Cyntaf | |

| Swyddog Polisi | Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol | Cymeradwywyd gan | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Pennaeth Partneriaethau Strategol | Ysgrifennydd y Brifysgol | Y Bwrdd Gweithredol | 15 Mai 2024 |

*Caiff y Protocol hwn ei adolygu ymhen blwyddyn*

**Protocol Ymwelwyr Proffil Uchel (Dros Dro)**

Mae'r Protocol Ymwelwyr Proffil Uchel yn ymdrin â holl ddigwyddiadau'r Brifysgol (cyfarfodydd, digwyddiadau ac ymweliadau) sy'n cynnwys ymwelwyr Proffil Uchel. Mae'r Protocol yr un mor berthnasol i ymwelwyr rhyngwladol ac ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig, megis aelodau seneddol (y Deyrnas Unedig ac aelodau Senedd Cymru, gan gynnwys gweinidogion ac uwch weision sifil), aelodau o'r teulu Brenhinol, uwch gynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ymwelwyr proffil uchel eraill.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn croesawu'r cyfleoedd y gall aelodau o staff eu creu drwy wahodd unigolion arwyddocaol i drafod a dysgu am waith y Brifysgol. Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Bwrdd wedi sefydlu'r Protocol hwn i oruchwylio gwahoddiadau a digwyddiadau proffil uchel.

Gan fod y Deyrnas Unedig mewn cyfnod o weithgarwch gwleidyddol gyda Etholiad Cyffredinol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei gynnal, mae'r Protocol hwn yn arbennig o berthnasol a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r *Polisi ar Ymgyrchu Etholiadol ar Dir ac yn Adeiladau'r Brifysgol* sydd i'w ddarganfod yma:

https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/documents/policy-electoral-campaigning-cy.pdf

Cydnabyddir fod yr ymweliadau hyn yn werthfawr iawn i waith y Brifysgol am nifer o resymau:

- Cyfle i ledaenu gwybodaeth am gryfderau ymchwil, cyfraniadau dinesig ac economaidd y Brifysgol (yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol)
- Y cyfle i hysbysu rhai sy'n gwneud penderfyniadau a llunwyr polisi lleol ac ehangach ar faterion yn ymwneud â'r sector Addysg Uwch a'i safle yn y cyd-destun addysgol ehangach.
- Y cyfle i roi adborth i lunwyr polisi ar effaith polisi ym maes Addysg Uwch.
- Y cyfle i dderbyn sesiynau briffio a gwybodaeth am bolisi'r llywodraeth a chyfleoedd i gryfhau sefyllfa'r Brifysgol ymhellach trwy ymgysylltu'n weithredol â rhaglenni gwaith a phrojectau sydd â buddion ehangach neu gyfleoedd ariannu hanfodol.
- Y cyfle i lunwyr polisi ddeall profiad myfyrwyr ac ymchwilwyr yng nghyswllt eu profiadau addysg.
- Y cyfle i hysbysu cysylltiadau a allai fod yn ddylanwadol ar waith y Brifysgol i feithrin enw da a gwella effaith.

Mae gan y Brifysgol safbwyntiau polisi sefydledig eisoes yn ymwneud â Rhyddid i Lefaru, ac ymgyrchu ar dir y Brifysgol, ac oherwydd ei statws elusennol, mae'n cydnabod ei rhwymedigaeth ehangach i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn wleidyddol niwtral, ac nad yw'n mabwysiadu nac yn mynegi safbwyntiau gwleidyddol. Disgrifir rhwymedigaethau o'r fath yn yr amgylchedd rheoleiddiol, ac mewn deddfwriaeth elusennau.

Mae'r egwyddorion canlynol wedi'u mabwysiadu ar gyfer ymweliadau Proffil Uchel o fewn Ysgolion Academaidd, Gwasanaethau Proffesiynol a phob is-gwmni:

- Cyn danfon unrhyw wahoddiad ar gyfer unrhyw gyfarfod / digwyddiad wyneb yn wyneb neu unrhyw gyfarfod / digwyddiad digidol (er enghraifft):
    - Aelod Seneddol,
    - Aelod o Senedd Cymru,
    - unrhyw Weinidog Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru
    - Aelod o'r Teulu Brenhinol
    - cynrychiolydd Awdurdod Lleol

  Dylid cyflwyno hysbysiad ffurfiol o unrhyw ymweliad i Swyddfa'r Is-ganghellor er ymwybyddiaeth. Rhaid i gyflwyniadau nodi dyddiad ac amser unrhyw ddigwyddiad arfaethedig a phwrpas y digwyddiad. Dylid cyflwyno hysbysiadau o'r fath trwy ddefnyddio ffurflen ar-lein er hwylustod:

  https://forms.office.com/e/AmGjCPRyNp

- Dylai gwahoddiadau Gweinidogol naill ai i Lywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth Cymru, neu Aelodau o’r Teulu Brenhinol, gael eu danfon gan Swyddfa’r Is-ganghellor.
- Dylid rhoi gwybod hefyd am gyfarfodydd y mae ymwelwyr Proffil Uchel yn gofyn amdanynt gydag aelodau'r Brifysgol, ar dir y Brifysgol, yn yr un modd.
- Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, dylai aelodau'r Brifysgol ragdybio y ceir caniatâd, ond yn amodol ar ystyriaeth o'r cyd-destun ehangach gan y Bwrdd Gweithredol a/neu'r Is-Ganghellor.

Pennaeth Partneriaethau Strategol ar y cyd ag Ysgrifennydd y Brifysgol, gyda chefnogaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, fydd yn goruchwylio'r Protocol hwn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am weithrediad y polisi hwn, danfonwch e-bost at vice-chancellor@bangor.ac.uk yn y lle cyntaf.